

Mae Cymdeithas Llywodraethwyr  
Conwy yn cynnwys cynrychiolwyr  
enwebedig o bob corff  
llywodraethu.

# CYMDEITHAS LLYWODRAETHWYR CONWY

This document is also available in English



Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod bob tymor er mwyn darparu cymorth a gwybodaeth rwydweithiol cyson i  
Llywodraethwyr a Chyrff Llywodraethu Ysgolion er mwyn iddynt allu ymgymryd â'u rolau'n effeithiol.  
Mae Awdurdod Addysg Lleol Conwy yn cefnogi'r Gymdeithas trwy ddarparu gwasanaethau gweinyddol.

## AMCANION Y GYMDEITHAS

- Hyrwyddo arfer gorau mewn llywodraethu ym mhob ysgol o fewn Awdurdod Addysg Lleol Conwy;
- Hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol ymhlith Cyrff Llywodraethol y Sir;
- Hyrwyddo adnoddau digonol i ysgolion trwy weithio gyda rhanddeiliaid; a
- Cynrychioli barn llywodraethwyr ysgol ar faterion yn ymwneud â llywodraethu ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol sy'n pwysu am weithredu yn ôl yr angen.

## GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

- Cysylltu â swyddogion yr Awdurdod Lleol ynglŷn â phob mater yn ymwneud ag amcanion y gymdeithas a'r materion hynny sy'n effeithio ar lywodraethu ysgol
- Penodi aelodau i gysylltu â sefydliadau a fforymau eraill
- Hyrwyddo ac annog hyfforddiant llywodraethwyr
- Cysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n effeithio ar lywodraethu ysgolion
- Cyfathrebu gyda holl lywodraethwyr a chyrff llywodraethu'r ALL ar faterion sy'n effeithio ar lywodraethu ysgolion
- Rhwydweithio gyda Sefydliadau Llywodraethwyr eraill i rannu arferion da
- Gwahodd siaradwyr o'r Awdurdod Addysg Lleol a mannau eraill i hysbysu aelodau o'r materion sy'n berthnasol i lywodraethu ysgolion ac annog cyfathrebu ar y materion hyn

Rydym yn awyddus i sicrhau bod ymarferion cydweithio yn cael eu hyrwyddo rhwng yr Awdurdod Lleol a chyrff llywodraethu er mwyn ein galluogi i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc ar y cyd ledled Conwy.

Cadeirydd: Don Milne

Rhif ffôn: 01492 575031

Gwefan: [www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk)

E-bost: [MilneD7@hwbcymru.net](mailto:MilneD7@hwbcymru.net) / [llywodraethwyr@conwy.gov.uk](mailto:llywodraethwyr@conwy.gov.uk)

Addysg, Plant a Phobl Ifanc > Llywodraethwyr Ysgol



**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**